**PRIFYSGOL BANGOR**

**PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH**

**Cyfarfod:** 13 Tachwedd 2013

**Presennol:** Dr D Assinder, Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr A Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Ms E Riches, Mr D Roberts, Mr E Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Dr L Shelley, Yr Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau::** Ms L Fowlie, Mr R Dart, Dr D M Roberts, Mrs L Meadows, Dr L Shelley, Yr Athro P Spencer, Yr Athro Woodman.

**Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Pwyllgor yn talu teyrnged i Mr Ian Nicholls yn dilyn ei ddamwain drasig ym mis Gorffennaf.**

## 426. COFNODION

Gofynnodd Mr E Roberts i'w ymddiheuriad gael ei nodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Mai 2013. Yn amodol ar y newid hwn, derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 22 o Mai 2013, wedi'u darllen, ac fe'u cadarnhawyd a'u llofnodi.

## 427. MATERION YN CODI

a) Cofnod 419 (a) Gofynion Diogelwch Pathogenau a Thocsinau:

Mae'r broses yn mynd rhagddi i ganfod pa ddeunyddiau ar y rhestr statudol sydd gan y colegau neu'r rhai maent yn bwriadu eu defnyddio. Cesglir rhestr ganolog maes o law.

b) Cofnod 420 (b) Adolygiad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

Mae'r eitem hwn ar yr agenda.

c) Cofnod 421 Adroddiad ar yr Archwiliad o Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau:

Nid yw'r wybodaeth am sut mae'r Coleg yn sicrhau iechyd a diogelwch plant sy'n mynd i weithgareddau a gynhelir yn y gymuned wedi ei derbyn hyd yma.

d) Cofnod 423 Adroddiadau Iechyd a Diogelwch Blynyddol (2012):

Mae'n bosib y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn seiliedig unwaith eto ar y flwyddyn galendr (2013) gyda'r data cenedlaethol a gesglir yn trosglwyddo i gylch blwyddyn academaidd HESA.

e) Cofnod 423 (i) Damweiniau a Digwyddiadau:

Hyd yma, cafwyd 54 o ddamweiniau a oedd yn cynnwys anafiadau yn 2013, rydym wedi rhoi gwybod am bump ohonynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â gofynion Rheoliadau Rhoi Gwybod am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

f) Cofnod 423 (vii) Hawliadau sifil (Cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch):

Er nad yw'r brifysgol yn derbyn unrhyw fai mae wedi setlo un hawliad sifil ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld cael ei dileu fel diffinydd yn yr ail hawliad.

**428. Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH**

Mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod dair gwaith ers y cyfarfod diwethaf yn ogystal â chyfarfodydd brys a gynhaliwyd mewn ymateb i'r ddamwain drasig ym mis Gorffennaf. Nodwyd yr eitemau pwysig canlynol:

i. *Mannau Ysmygu o gwmpas Prif Adeilad y Celfyddydau*: Mae arolwg barn a gynhaliwyd gyda sampl o ddefnyddwyr prif adeilad y celfyddydau wedi dod i'r casgliad bod gwelliannau wedi cael eu gwneud. Mae'r argymhellion yn cynnwys symud un o ardaloedd ysmygu Prif Adeilad y Celfyddydau a sefydlu ardaloedd ysmygu dynodedig mewn rhannau eraill o'r brifysgol.
ii. *Gweithredu Diwydiannol*: Sefydlwyd Gweithgor i oruchwylio'r modd mae'r brifysgol yn ymateb i dân yn ystod streic y Gwasanaeth Tân. Diolchwyd i staff yr Adran Ystadau a Chyfleusterau a fu'n gyfrifol yn sicrhau bod rheoliadau addas wedi eu sefydlu.

**a) <u>Diogelwch Cemegol wrth ddysgu</u>**

Canmolwyd yr Ysgol Cemeg yn dilyn yr adolygiad o ddiogelwch cemegol wrth ddysgu a dynnodd sylw at y safonau da yn sesiynau ymarferol israddedigion yn y flwyddyn gyntaf a'r ail. Roedd yr adolygiad wedi nodi nifer o welliannau y mae'r Ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol iawn iddynt.

Diolchwyd i Dr Huw Roberts am ei arbenigedd a'i gymorth yn ystod yr adolygiad.

Dywedwyd y bydd rhagor o asesiadau am sut mae Colegau eraill yn defnyddio cemegau wrth ddysgu a gwneud ymchwil yn cael eu cynnal maes o law.

**b) <u>Adroddiad i Archwiliad o Sefydliad Partner gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch</u>**

Cyflwynwyd papur a nodwyd y canlynol:-

Fel rhan o adolygiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) o drefniadau'r brifysgol i asesu risgiau posibl i staff sydd wedi'u lleoli gyda chyflogwyr eraill neu'n gweithio'n bennaf iddynt, cyfwelwyd â nifer o staff y brifysgol. Yn dilyn trafodaethau a llunio cynllun gweithredu i leihau'r tebygolrwydd o ail ddigwyddiad daeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd Diogelwch â'u hymholiad i ben.

Codwyd y camau gweithredu canlynol yn yr ymchwiliad mewnol:

ii. Ailgyflwyno'r gofyniad i asesu'r trefniadau iechyd a diogelwch yn y sefydliadau KTP lletyol a chynnal archwiliad o'r safle, lle bo modd, cyn i aelod staff ddechrau gweithio yno.

iii. Atgoffa colegau ac adrannau o'r cyfrifoldeb am staff sy'n gweithio'n bennaf i sefydliad lletyol.

iv. Sefydlu systemau i restru enwau holl staff y brifysgol sy'n gweithio mewn sefydliadau lletyol.

v. Ymchwilio i drefniadau'r brifysgol mewn perthynas â staff cyflogwyr eraill sydd wedi eu lleoli yn y brifysgol.

Nodwyd bod adolygiad o leoliadau myfyrwyr yn mynd rhagddo, yn dechrau gyda chyrsiau KESS a Mynediad at Gyrsiau Meistr cyn symud ymlaen i fathau eraill o leoliadau academaidd. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2014.

## 429. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH MEWN CLYBIAU A CHYMDEITHASAU GAN UNDEB Y MYFYRWYR

Cyflwynodd y Cadeirydd Steve Barnard, Cydgysylltydd Datblygu Clybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr a wahoddwyd i roi adroddiad ar lafar ar ddiogelwch yn y clybiau a'r cymdeithasau. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

*i.* *Clybiau a chymdeithasau:* Mae 58 o glybiau chwaraeon a 114 o gymdeithasau. Cynyddodd yr aelodaeth o 4,500 i 7,260 yn y flwyddyn academaidd hon.

ii. *Swydd y cydlynwyr:* Cyn penodi cydlynydd nid oedd llawer o wybodaeth am beth yr oedd y clybiau a'r cymdeithasau yn ei wneud neu angen ei wneud o ran iechyd a diogelwch.

*iii.* Mae swydd y cydlynydd yn cynnwys cynorthwyo Undeb y Myfyrwyr, Swyddogion Sabothol a chlybiau a chymdeithasau i ddatblygu a chynllunio eu gweithgareddau i gyfoethogi profiad myfyrwyr, gan sicrhau iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd wrth wneud hynny. Mae'r cydlynydd yn goruchwylio'r bysiau mini a'r cynllun benthyca beiciau i fyfyrwyr.

iv. *Gwaith a wnaed hyd yma:* Gwnaed llawer iawn o waith i ailwampio'r gweithdrefnau a sicrhau bod pwyllgorau'r clybiau a'r cymdeithasau a'u haelodau yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Ymweld â chlybiau a chymdeithasau'n rheolaidd i fonitro gweithgareddau.
- Llunio templed polisi y gellir ei addasu i bob clwb a chymdeithas i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau penodol, er enghraifft, mewn perthynas â hyfforddiant achrededig, cynnal a chadw offer.
- Gwella cymhwysedd trwy ddarparu hyfforddiant mewnol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ymateb brys ymarferol a fideos hyfforddiant.
- Sefydlu asesiad risg ar dair haen i glybiau a chymdeithasau.
- Datblygu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr rhyngwladol ac anabl.

v. *Gwaith at y dyfodol:* Bydd asesiadau risg a threfniadau brys yn cael eu harchwilio i gael sicrwydd bod y rheoliadau'n effeithiol. Wedyn gwahoddir Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch i archwilio'r broses hon.

vi. *Sialensiau:* Mae diffyg lle storio yn creu anawsterau a mynegwyd pryder y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu ar ôl symud i Pontio. Hefyd, mae'r nifer cynyddol o glybiau a chymdeithasau yn rhoi mwy o alw ar yr adnoddau.

Nodwyd y bydd yr Adran Ystadau a Chyfleusterau yn adolygu'r cyfleusterau storio ym mhob rhan o'r brifysgol.

## 430. ADRODDIAD IECHYD A DIOGELWCH

Rhoddwyd crynodeb o'r gweithgareddau iechyd a diogelwch a nodwyd y canlynol:

*i.* ***Gwaith Maes:*** Dylid cwblhau'r broses ymgynghori. Bydd adroddiad ynghyd â pholisi drafft yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

*ii.* ***Systemau gwasgedd:*** Mae adolygiad yn mynd rhagddo i sicrhau bod holl systemau gwasgedd yr adrannau yn cael eu nodi a bod swyddog yswiriant y brifysgol yn cael ei hysbysu amdanynt, fel y bo'n briodol. Gweithio gyda cholegau ac adrannau perthnasol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â systemau gwasgedd.

*iii.* ***Asesiad Risg Corfforaethol:*** Mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd.

*iv.* ***Cyfleusterau ymbelydredd:*** Bydd cynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol Cymru a Chynghorwyr Terfysgaeth Diogelwch Gwrthsefyll

(CTSA) yn ymweld ym mis Rhagfyr i archwilio cyfleusterau ymbelydredd y brifysgol.

v. ***Laserau:*** Bwriedir adolygu trefniadau a gweithdrefnau diogelwch y brifysgol mewn perthynas â laserau.

**a)** **Agenda Iechyd 2013 / 2014:**

vi. ***Ty Gobaith:*** Codwyd £12,800 gan staff a myfyrwyr yn 2013.

vii. ***Her Colli Pwysau*****:** I ddechrau ar 22 Ionawr 2014. Mae Santander wedi cytuno i roi cyllid cyfatebol i'r hyn a godir sef punt am bunt.

viii. ***Goruchwylio Iechyd / Profion Iechyd****:* Mae staff sy'n gweithio ym maes bwyd wedi cael golwg gyffredinol ar iechyd a phrofion iechyd. Rhoddwyd gwiriadau iechyd hefyd i'r Ysgol Cemeg a staff diogelwch yn ystod y dydd.

*ix.* ***Cefnogaeth barhaus:*** Rydym yn dal i ddarparu cefnogaeth i famau newydd a merched beichiog a staff sydd ar gyfnod salwch tymor hir i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

*x.* ***Hyfforddiant Achub Bywydau:*** Darparwyd nifer o sesiynau hyfforddiant cynnal bywyd. Roedd y sesiynau'n cynnwys CPR a sut i ddefnyddio diffribiliwr ac epi-pen.

*xi.* ***Cymorth Cyntaf:*** Bydd adolygiad o hyfforddiant cymorth cyntaf a chynnal bywyd yn cael ei gynnal. Cyflwynir papur am sut i wella effeithiolrwydd ac addasrwydd hyfforddiant o'r fath i'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch maes o law.

**b)** **Hybu Iechyd:**

*xii.* ***Gofalu am eich Cefn:*** Ymgyrch wedi'i anelu at gael staff swyddfa, sy'n aml yn eistedd wrth eu desgiau am gyfnodau maith gan arwain at broblemau cyhyrysgerbydol, i godi ar eu traed a symud.

*xiii.* ***Tachwedd-Rhagfyr, Eich Cefnogi Chi:*** Atgoffa staff am y wefan iechyd a lles a'r cymorth sydd ar gael. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys arolwg yn gofyn i staff am eu barn ynglŷn â pha ymgyrchoedd iechyd yr hoffent eu cael yn y dyfodol.

*xiv.* ***Ionawr, Ymgyrch Alcohol:*** Bydd yn rhoi gwybodaeth am yfed yn gyfrifol.

xv. ***Chwefror, Wythnos Byw'n Iach:*** Ymgyrch am wythnos yn dechrau ar 10 Chwefror 2014 wedi'i hanelu at staff a myfyrwyr

*xvi.* ***Mawrth, Dim Smygu:*** Bydd Ash Cymru yn rhoi gwybodaeth i staff a myfyrwyr am faterion cysylltiedig ag ysmygu fel rhan o ddiwrnod Dim Smygu.

*xvii.* ***Ebrill, Diwrnod Llais y Byd:*** Rhoddir cyngor ar sut y gall darlithwyr ofalu am eu llais.

*xviii.* ***Mai, Ymwybyddiaeth Haul:*** Awgrymiadau a chynghorion ar ofalu am eich croen.

*xix.* ***Mehefin, Iechyd Dynion:*** Ymgyrch wedi'i hanelu at wella gwybodaeth dynion am faterion iechyd dynion a sut i'w rheoli.

xx. ***Gorffennaf-Awst, Teithiau Cerdded Amser Cinio:*** Amrywiaeth o deithiau cerdded amser cinio i gael pobl i symud yn ystod misoedd yr haf. Gwneir dadansoddiad o'r ymgyrchoedd iechyd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i helpu i ddatblygu ymgyrchoedd 2014/2015

*xxi.* ***Y Safon Iechyd Gorfforaethol:*** Mae dadansoddiad bwlch yn cael ei wneud i nodi'r manteision o gael Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, y meincnod ansawdd i hyrwyddo iechyd yn y gwaith yng Nghymru.

c) **<u>Adroddiad Teithio'r Byd</u>**

Cyflwynwyd papur a nodwyd y pwyntiau canlynol:

i. Amcan yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth am gerdded 10,000 o gamau'r dydd fel yr argymhellir ac i annog staff a myfyrwyr i fod yn egnïol ac ymwybodol o'r amgylchedd trwy ofyn iddynt gofnodi faint maent yn ei gerdded, nofio neu feicio a hyrwyddo peidio â theithio mewn car.

ii. Cynhaliwyd yr ymgyrch am 90 diwrnod, gyda'r 60 diwrnod cyntaf yn gystadleuaeth gyfeillgar â'r staff ym Mhrifysgol Aberystwyth.

iii. Cyhoeddwyd newyddlenni rheolaidd yn ystod yr ymgyrch i dynnu sylw at ba mor bell o amgylch y bydd yr oedd y staff wedi teithio. Bu myfyriwr ar interniaeth yn helpu trwy gydol yr ymgyrch.

iv. Cofrestrodd 400 o staff a 192 o fyfyrwyr i gymryd rhan yn yr ymgyrch. Ar ddiwedd y cyfnod roedd y staff wedi teithio 67,000 o filltiroedd (2.69 gwaith o amgylch y byd), sef 11,000 yn fwy o filltiroedd nag Aberystwyth.

v. Gwelwyd o'r arolwg a wnaed gyda'r cyfranogwyr wedyn ei fod wedi codi ymwybyddiaeth am gyn lleied o ymarfer corff a wneir gan rai pobl. Roeddent hefyd yn teimlo bod y mesuryddion cerdded, a ariannwyd trwy gais am grant i TAITH, wedi eu hysgogi'n fawr.

Y gobaith yw cynnal yr ymgyrch eto yn 2015.

**431. ADOLYGU POLISI: POLISI DIOGELWCH BYSIAU MINI**

Cyflwynwyd i'r pwyllgor y Polisi Diogelwch Bysiau Mini, sef diweddariad o'r OHSU P14 presennol, cod ymarfer ar ddefnyddio bysiau mini yn ddiogel. Cafwyd trafodaeth lle gwnaed nifer o argymhellion a chytunwyd arnynt. Cytunwyd i gymeradwyo'r "Polisi Diogelwch Bysiau Mini" diwygiedig, yn amodol ar fân newidiadau.

**432. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD**

i. *Pontio:* Nid oes unrhyw broblemau na phryderon iechyd sylweddol wedi eu nodi ar y safle.

ii. *SEACAMS:* Mae'r project yn mynd rhagddo ac ar ôl y problemau sŵn ar y dechrau, mae'n symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu.

iii. *Safle'r Santes Fair:* Mae ceisiadau wrthi'n cael eu hasesu i godi pentref newydd i fyfyrwyr.

*iv. Canolfan Chwarae Maes Glas:* Yn ystod yr haf gorchuddiwyd y cyrtiau awyr agored amlbwrpas gan dôm chwythu i fyny. Bydd y gwaith adnewyddu mewnol yn dechrau cyn diwedd 2013.

*v. Gwaith adnewyddu sylweddol:* Mae Garth ac Ardudwy yn cael eu defnyddio yn awr ar ôl y gwaith adnewyddu mawr.

*vi. Strategaeth Ystadau:* Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys nodi sut y gellir rhyddhau stad y brifysgol i ganolbwyntio adnoddau'n well.

vii. *Cofrestr Risg a Bidiau:* Cymeradwywyd cofrestr 2013 / 2014 a dyrannwyd cyllid o £3.2 miliwn.

*viii. Polisi ar ffug arfau:* Yn dilyn digwyddiad, cynhelir adolygiad o'r polisi a'r gweithdrefnau am ffug arfau.

ix. *Adolygiad o reoli contractwyr:* Cynhaliwyd adolygiad allanol o'r ffordd mae'r adran yn rheoli ei chontractwyr a derbyniwyd nifer o argymhellion, yn arbennig am y maes o

gadw cofnodion.

**433. UNRHYW FATERION ARALL**

Dim.